



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol

Mae'r dudalen hon yn egluro rôl yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n amlinellu beth mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei olygu i ymarferwyr, a'r gwahanol lwybrau addysgol sydd ar gael i ddod yn ymarferydd cymwysedig.

Cyhoeddwyd gyntaf: 26 January 2026
Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cymwysterau-ac-ariannu/social-services-practitioner>

am y fersiwn diweddaraf.

Mae'r dudalen hon yn egluro rôl yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n amlinellu beth mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei olygu i ymarferwyr, a'r gwahanol lwybrau addysgol sydd ar gael i ddod yn ymarferydd cymwysedig.

Ynglŷn â'r rôl

Mae ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yn cyflawni'r hyn y gellid ei ddisgrifio'n fras fel rôl cymorth gwaith cymdeithasol. Er bod y teitl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol yn gallu amrywio'n sylweddol ar draws ac o fewn timau awdurdodau lleol, mae ymarferwyr yn gyfrifol am asesiadau, cynllunio a darparu cymorth.

Mae ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau eraill i hyrwyddo canlyniadau sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer unigolion a chymunedau. Mae eu dyletswyddau'n cynnwys rhoi cyngor a gofal ffurfiol a chymorth cynllunio, asesiadau ac adolygiadau.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Y Ddeddf) yn amlinellu'r fframwaith statudol ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer y canlynol:

- gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth
- gwella llesiant gofalwyr sydd angen cefnogaeth
- trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn pwysleisio y dylai ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru weithio mewn partneriaeth ag unigolion, eu teuluoedd, a gofalwyr i hyrwyddo llesiant a chyflawni'r canlyniadau y mae pobl eu heisiau. Mae'r

Ddeddf yn rhoi unigolion wrth wraidd eu gofal, gan roi llais a rheolaeth iddyn nhw yn y broses o wneud penderfyniadau.

Disgwylir i ymarferwyr weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person, gan ddeall anghenion, amgylchiadau a dewisiadau unigol, gan gynnwys ystyriaethau diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol. Rhaid iddyn nhw hefyd herio gwahaniaethu, rhagfarn ac anghydraddoldebau systemig i sicrhau bod gan bawb fynediad teg at ofal a chymorth.

Prif egwyddorion a dyletswyddau'r Ddeddf a beth mae'n ei olygu i ymarferwyr

- Llais a rheolaeth: dylai unigolion gymryd rôl weithredol mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal a'u cymorth. Dylai ymarferwyr eu helpu i gymryd rhan ac i wneud yn siŵr bod eu safbwyntiau'n cael eu clywed.
- Llesiant: mae diffiniad y Ddeddf o lesiant yn eang. Mae'n cwmpasu iechyd corfforol a meddyliol, lesiant emosiynol, urddas personol, a chynhwysiant cymdeithasol. Rhaid i ymarferwyr feddwl am y rhain i gyd wrth asesu anghenion a chynllunio cymorth.
- Atal ac ymyrraeth gynnar: dylai ymarferwyr weithio i stopio anghenion rhag codi neu waethygu. Dylent ymyrryd yn gynnar i gefnogi unigolion a'u teuluoedd.
- Cyd-gynhyrchu: dylai ymarferwyr gydweithio gydag unigolion, eu teuluoedd a phartneriaid eraill i greu cynlluniau gofal a chymorth.
- Gweithio aml-asiantaeth: mae'r Ddeddf yn annog asiantaethau a gweithwyr proffesiynol i gydweithio i ddarparu dull holistig a chydlynol tuag at ofal.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae gan ymarferwyr ddyletswydd gyfreithiol o dan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#), sy'n amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gwaith ac yn y gymdeithas. Rhaid iddyn nhw weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person, a sicrhau bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg ac â pharch, waeth beth fo'i oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, neu unrhyw nodwedd warchodedig arall. Mae hyn yn golygu gwerthfawrogi amrywiaeth, hyrwyddo cynhwysiant, a rhoi cefnogaeth deg sy'n diwallu anghenion pob person.

Cyfrifoldebau'r ymarferydd

- Asesiad: mae ymarferwyr yn gyfrifol am asesu anghenion gofal a chymorth unigolion, gan ystyried eu hamgylchiadau, eu dewisiadau, a'r hyn maen nhw eisiau ei gyflawni.
- Cynllunio gofal a chymorth: rhaid i ymarferwyr weithio gydag unigolion i greu a chynnal cynlluniau gofal a chymorth sy'n addas i'w hanghenion a'u nodau.
- Diogelu: mae gan ymarferwyr ddyletswydd i ddiogelu unigolion rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddyn nhw.

Cyfrifoldebau eraill:

Dangos

- Eiriolaeth: dylai ymarferwyr ddeall eiriolaeth a helpu unigolion i gael gwasanaethau eirioli fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Gwybodaeth a chynghor: dylai ymarferwyr roi gwybodaeth glir a hygyrch i unigolion ynglŷn â'u hawliau, a gwasanaethau cymorth.

- Gweithio gydag eraill: dylai ymarferwyr weithio'n effeithiol, yn bositif ac yn gynhwysol gyda gweithwyr proffesiynol eraill, gan gynnwys y rhai o faes iechyd, addysg, a thai, i ddarparu gofal a chymorth cydgysylltiedig.
- Mynd i'r afael ag anghenion iaith: mae'r Ddeddf yn pwysleisio pa mor bwysig yw iaith o ran gofal a chymorth, yn enwedig i siaradwyr Cymraeg. Dylai ymarferwyr wneud "Cynnig Rhagweithiol" o wasanaethau Cymraeg a sicrhau y gall unigolion gyfathrebu yn eu dewis iaith. Dylai iaith ac ymarfer fod yn gynhwysol, yn canolbwyntio ar y person, ac yn rhydd o ragfarn neu ragdybiaethau. Dylai ymarferwyr ddefnyddio cyfieithwyr addas, cymeradwy lle bo angen.
- Model cymdeithasol o anabledd: dyma'r ddealltwriaeth bod anabledd yn cael ei greu gan gymdeithas - ein hamgylcheddau, ein hagweddau a'n systemau - yn hytrach nag amhariadau neu anableddau rhywun. Dylai ymarferwyr hyrwyddo'r model cymdeithasol o anabledd ac annog unigolion i weld eu hunain fel rhai galluog a gwerthfawr.
- Cyfrinachedd: rhaid i ymarferwyr gynnal cyfrinachedd, ond mae ganddyn nhw ddyletswydd hefyd i rannu gwybodaeth lle bo angen i warchod unigolion rhag niwed, neu os yw er budd y cyhoedd yn ehangach.
- Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn dweud y dylai ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru weithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y person, [sy'n seiliedig ar gryfderau](#), ac yn gydweithredol, gan flaenoriaethu llesiant ac anghenion unigol y rhai maen nhw'n eu cefnogi.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i Godau Ymarfer (y Codau)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'i **Godau Ymarfer** (y Codau)

Mae'r Ddeddf a'i Chodau yn dweud y dylai ymarferwyr weithio gydag unigolion ar lefel gyfartal – gan rannu pŵer a pharch drwy gyd-gynhyrchu'r sgysiau 'beth sy'n bwysig' gyda'i gilydd. Ceir gwybodaeth ar ein gwefan am bwysigrwydd [cael sgysiau beth sy'n bwysig](#) a sut mae'r rhain yn cyfrannu at y broses asesu.

Mae Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru yn diffinio 'cyd-gynhyrchu' fel:

“Mae dull sy'n seiliedig ar asedau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn golygu bod pobl sy'n rhoi ac yn derbyn gwasanaethau yn rhannu pŵer a chyfrifoldeb, ac yn gweithio gyda'i gilydd ar lefel gyfartal, mewn perthnasoedd cilyddol a gofalgar.

Rhan 2 o'r Cod Ymarfer

Dangos

Mae [Rhan 2 o'r Cod Ymarfer](#) yn amlinellu swyddogaethau cyffredinol awdurdod lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- asesu anghenion y boblogaeth ar gyfer gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill, fel y rhai sy'n hyrwyddo llesiant
- hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cydweithfeydd, gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector
- sicrhau bod pobl sy'n cyflawni swyddogaethau o dan y Ddeddf yn bodloni eu dyletswyddau i hyrwyddo llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalcwyr sydd angen cefnogaeth
- darparu amrywiaeth o wasanaethau ataliol
- darparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ynglŷn â gofal a chymorth

- darparu cymorth i gael mynediad at ofal a chymorth.

Rhan 3 o'r Cod Ymarfer:

Dangos

Mae [Rhan 3 o'r Cod Ymarfer](#) (asesu anghenion unigolion) yn amlinellu:

- proses asesu anghenion unigolyn am ofal a chymorth, neu gefnogaeth yn achos gofalwr
- y broses asesu i ganolbwyntio ar anghenion a chryfderau pobl, ac i gefnogi pobl i gyfrannu at eu canlyniadau personol eu hunain
- proses asesu i bawb – plant, oedolion a gofalwyr
- proses adolygu ac ailasesu a fydd yn berthnasol i asesiadau
- cefnogaeth i hawl pobl i gael sgysiau parchus am eu llesiant, ac i gymryd rhan lawn mewn penderfyniadau am eu gofal.

Mae Rhan 3 o'r Cod Ymarfer yn gwneud gofynion penodol ar gyfer asesu anghenion.

Os yw ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol yn cynnal asesiadau, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod gan y rhai sy'n cynnal yr asesiadau sgiliau, hyfforddiant a chymwysterau addas i gynnal asesiadau. Mae lefelau priodol o gymhwystra ar gyfer cynnal y gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- naill ai ymarferydd gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig sydd â chymhwyster proffesiynol lefel 5 neu uwch
- neu berson sydd â chymhwyster gofal cymdeithasol lefel 4 neu uwch, sy'n cynnwys gwybodaeth a sgiliau am gynnal asesiad sy'n canolbwyntio ar y person, dan oruchwyliaeth ymarferydd gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol cofrestredig.

Bydd angen i'r awdurdod lleol fod yn fodlon hefyd fod gan yr holl staff sy'n cyflawni'r gweithgareddau hyn y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd i weithio gyda phlant a phobl ifanc, oedolion, a gofalwyr, lle bo'n briodol.

Fframwaith cymwysterau

Mae'r fframwaith cymwysterau ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru yn amlinellu'r cymwysterau gofynnol a'r cymwysterau sy'n cael eu hargymell ar gyfer swyddi gwahanol o fewn gofal cymdeithasol a gofal plant rheoleiddiedig. Mae tudalennau'r [fframwaith cymwysterau](#) ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru yn cynnwys gwybodaeth fanwl am gymwysterau, fesul maes gwasanaeth.

Mae rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol wedi'i rhestru ar y [fframwaith cymwysterau](#) o dan yr adran 'gwasanaethau gwaith cymdeithasol'. Rydyn ni'n argymhell cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y rôl hon, ond nid yw'n angenrheidiol.

Mae nifer o awdurdodau lleol yn defnyddio timau amlddisgyblaethol neu hybrid i ddiwallu anghenion newidiol y sector. Efallai bod gan rai o'r timau hyn gyfrifoldebau tebyg i'r rhai a restrir yn rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol, ond heb y teitl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol. Gallan nhw hefyd fod yn rhan o rywle arall ar y fframwaith cymwysterau ac efallai y bydd angen cofrestru.

I fodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Rhan 3 o'r Cod Ymarfer, argymhellir y cymwysterau canlynol ar gyfer 'ymarferwyr gofal cymdeithasol':

Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru)

Dangos

[Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#) oedd y cymhwyster cyntaf wnaethon ni ei ddewis i fodloni gofynion ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n gwrs dysgu o bell 120 credyd, blwyddyn llawn amser neu ddwy flynedd rhan-amser, sy'n gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol ynddo'i hun, ac sydd hefyd yn gyfwerth â thraean cyntaf gradd anrhydedd.

Mae'r cwrs ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn dechrau neu ddatblygu gyrfa ym maes gofal cymdeithasol neu waith cymdeithasol, neu gall helpu rhywun yn ei rôl bresennol ym maes gofal cymdeithasol. Mae'n cydnabod ac yn ymestyn rolau cymorth gofal cymdeithasol ac yn sicrhau bod gan ymarferwyr gofal cymdeithasol yr hyfforddiant a'r cymwysterau iawn i gyflawni eu rôl.

Nid oes gofynion mynediad ffurfiol, ond bydd angen i chi gael profiad cyfredol o weithio neu wirfoddoli mewn lleoliad gofal cymdeithasol a rhaid i chi gael mynediad at leoliad gofal cymdeithasol neu waith cymdeithasol addas (â thâl neu'n wirfoddol).

Efallai y bydd angen tystysgrif DBS arnoch chi hefyd.

Mae gan Dystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) ofynion ymarfer gorfodol yng Nghymru:

20 diwrnod mewn lleoliad gwaith perthnasol addas ac wedi'i wirio gan reolwr neu oruchwyliwr

cwblhau e-bortffolio ymarfer wedi'i fapio i safonau ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Nid yw llwybr Tystysgrif y Brifysgol Agored ar gael drwy gyllid prentisiaethau. Mae'r ffioedd a'r opsiynau cyllido ar dudalen [Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol \(Cymru\)](#)

Mae'r cwrs yn cynnwys dau fodiwl 60 credyd:

K102 - Cyflwyno Gofal Iechyd a Chymdeithasol

Beth fyddwch chi'n ei astudio

Bloc 1: Beth mae'n ei olygu i fod yn ofalwr – archwilio gofal di-dâl a phroffesiynol, gofynion emosiynol, a safonau.

Bloc 2: Datblygiad dynol ar draws cwrs bywyd – yn cynnwys astudiaethau achos ar fudo, trosedd, ac anabledau dysgu.

Bloc 3: Diogelu – yn diffinio risg ac yn archwilio amddiffyniad a llesiant mewn gwasanaethau gofal.

Bloc 4: Cymdeithaseg a hunaniaeth – yn archwilio hunaniaeth, trawsnewidiadau, a chysyniadau cymdeithasegol.

Bloc 5: Lleoliadau gofal – edrych ar amgylcheddau domestig, preswyl ac ysbytai.

Bloc 6: Cyflwyno gwasanaethau'n ddigidol – yn archwilio technoleg ym maes gofal, gan gynnwys apiau digidol a chyfryngau cymdeithasol.

Asesiad

Cyflwynir tiwtorialau'r modiwlau ar-lein drwy sesiynau byw a sesiynau wedi'u recordio. Caiff y modiwlau eu hasesu drwy chwe aseiniad wedi'u marcio gan diwtor.

K123 - Sylfeini ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Gwaith Cymdeithasol

Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

Mae'r modiwlau wedi'u trefnu'n themâu, sy'n cwmpasu:

1. Rhoi gofal cymdeithasol a gwaith cymdeithasol yn ei gyd-destun

- Rolau a chyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol.
- Profiadau bywyd ac amrywiaeth.
- Sgiliau cyfathrebu a meithrin perthynas.
- Ymarfer gwrth-wahaniaethol, gwrth-ormesol a gwrth-hiliol.
- Egwyddorion a gwerthoedd moesegol.

2. Sgiliau ymarfer

- Asesu, cynllunio, ymyrryd.
- Asesu risg a diogelu.
- Personoli a chynllunio gofal.
- Gwerthuso canlyniadau.

3. Datblygiad proffesiynol

- Arweinyddiaeth a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP).
- Deallusrwydd emosiynol a gwydnwch.
- Paratoi ar gyfer astudio pellach neu ddatblygiad gyrfa.

Cyflwynir y modiwlau drwy weithdai ar-lein. Ceir 10 sesiwn dwy awr a phum sesiwn atgyfnerthu awr o hyd.

Cymhwyster galwedigaethol Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4

Dangos

Cyn i [gymhwyster galwedigaethol Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4](#) gael ei ddatblygu, yr unig ffordd i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, oedd drwy Dystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Dangosodd adborth oddi wrth y sector gofal cymdeithasol angen am fwy o opsiynau datblygu gyrfa oherwydd nad oedd llwybr traddodiadol addysg uwch y Brifysgol Agored yn addas i bawb. Roedd llawer o bobl yn ffafrio llwybr galwedigaethol, yn enwedig y rhai nad oeddent yn bwriadu symud ymlaen i wneud gradd gwaith cymdeithasol.

I fynd i'r afael â hyn, fe wnaethon ni ymuno ag awdurdodau lleol, colegau addysg bellach, a City & Guilds i greu consortiwm. Gyda'n gilydd, fe wnaethon ni greu, a bellach yn rheoli, rhaglen brentisiaethau cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4.

Mae'r cymhwyster hwn yn:

- ddewis galwedigaethol arall yn lle'r llwybr addysg uwch

- gydnabyddiaeth ffurfiol o rôl yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol
- llwybr sy'n cefnogi dewisiadau dysgu a nodau gyrfa amrywiol.

Mae cymhwyster prentisiaeth Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 yn rhan o grŵp o gymwysterau iechyd a gofal cymdeithasol a ddatblygwyd ar gyfer rolau penodol. Ceir mwy o fanylion ar [wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru](#).

Mae cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 yn gymhwyster dysgu seiliedig ar waith dwy flynedd, sy'n werth 120 credyd. Yn wahanol i gymhwyster y Brifysgol Agored, lle mae angen profiad cyfredol ar y myfyriwr o weithio neu wirfoddoli mewn lleoliad gofal cymdeithasol, rhaid i unrhyw un sy'n dilyn cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds fod eisoes yn gweithio mewn rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster ar gael drwy gyllid fframwaith prentisiaethau. Mae wedi cael ei gyflwyno ers Medi 2022 yn ne ddwyrain a de orllewin Cymru gan ddau sefydliad addysg bellach – Coleg Penybont a Choleg Gŵyr Abertawe.

Mae'r flwyddyn gyntaf yn rhaglen a addysgir, sy'n cwmpasu pump o'r chwe uned yn y cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4.

Caiff y sesiynau a addysgir eu cyflwyno gan y colegau yn rhithiol ac wyneb yn wyneb.

Mae'r rhaglen a addysgir yn cwmpasu:

- Uned 440 - deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol
- Uned 441 - ymarfer proffesiynol

- Uned 442 - deall damcaniaethau a modelau a'u perthynas ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person neu'r plentyn a dulliau sy'n seiliedig ar hawliau
- Uned 443 - deall ffactorau sy'n cyfrannu at yr angen am ofal a chymorth gan unigolion a/neu ofalwyr
- Uned 444 - cefnogi'r broses asesu a chynllunio gofal a chymorth.

Ceir uned 445 hefyd - diogelu unigolion, ond pan ddatblygwyd y rhaglen addysgu penderfynwyd y byddai awdurdodau lleol yn rhoi hyfforddiant diogelu yn fewnol, i fodloni gofynion y rôl. I gwblhau cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol, rhaid i fyfyrwyr gwmpasu pob un o'r chwe uned.

Gallwch chi ddod o hyd i'r fframwaith dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol, safonau ac adnoddau hyfforddi ar ein [gwe-dudalennau diogelu](#).

Asesiad ymarfer yng ngweithle'r myfyriwr gan addysgwr ymarfer yw ail flwyddyn y rhaglen.

Mae cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds yn ei gwneud yn ofynnol i bob asesiad gael ei gynnal gan weithiwr cymdeithasol cymwysedig. I sicrhau bod digon o aseswyr cymwysedig a mynediad at gyllid prentisiaethau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a City & Guilds gydweithio mewn partneriaeth.

Gallwch chi ddod o hyd i fwy o wybodaeth am asesiad cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 yn eu [pecyn asesu](#).

Gofynion Sgiliau Hanfodol Cymru

Fel rhan o'r fframwaith prentisiaeth, rhaid i'r prentis gwblhau:

- Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif

Mae'r cymwysterau hyn yn dangos bod y prentis yn cyrraedd y safonau llythrennedd a rhifedd a osodwyd gan y fframwaith prentisiaeth cenedlaethol.

Os oes gan y prentis gymwysterau cyfatebol cydnabyddedig eisoes (megis TGAU Saesneg a Mathemateg gradd C/4 neu'n uwch), efallai na fydd angen iddyn nhw gwblhau'r rhain, cyhyd ag y gellir eu gwirio. Mae'r cymwysterau hyn yn elfennau gorfodol o'r rhaglen.

Adroddiad peilot

Fe wnaethon ni ysgrifennu adroddiad am lwyddiant rhaglen beilot cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol galwedigaethol City & Guilds. Mae'n egluro'r newidiadau a wnaed i ddiwallu anghenion myfyrwyr y garfan gyntaf yn well ac i wella'r rhaglen yn gyffredinol.

- [Adroddiad terfynu ar gyfer cynllun peilot cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 City & Guilds](#)

DOCX 2MB

Adnoddau i gefnogi'r cymhwyster galwedigaethol

Mae yna amrywiaeth o adnoddau addysgu am ddim ar gyfer cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4, a gyflwynir gan Goleg Penybont a Choleg Gŵyr Abertawe. Mae'r rhain ar gael ar [wefan Dysgu](#)

[Iechyd a Gofal Cymru](#), yn adran adnoddau cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4.

Mae'r modiwlau ar gael i awdurdodau lleol ac unrhyw asiantaethau eraill. Gall rheolwyr a hyfforddwyr mewnol, darparwyr dysgu sydd wedi'u comisiynu gyflwyno'r adnoddau dysgu hyn neu gellir gael mynediad atynt drwy ddarparwyr dysgu sy'n cynnig y cymhwyster ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol. Gallwch chi ddod o hyd i'r adnoddau dysgu ar wefan Dysgu Iechyd a Gofal Cymru, yn adran adnoddau cymhwyster [Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4](#).

Disgwylir y byddai unrhyw hyfforddiant, dysgu a datblygu yn dilyn rheoliadau cenedlaethol a pholisïau a chanllawiau cenedlaethol a lleol.

Astudiaethau achos

Gallwch chi wyllo astudiaethau achos fideo am gymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 ar wefan [Gofalwn Cymru](#). Maen nhw'n tynnu sylw at brentisiaethau lefel uwch ac yn dangos eu bod ar gael i bobl sydd eisoes yn gweithio yn rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol.

Cwblhaodd Dominique Lima Gymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 fel rhan o'r grŵp peilot cyntaf. Pan ddechreuodd Dominique, nid oedd y llwybr dilyniant i ail flwyddyn y radd gwaith cymdeithasol drwy drosglwyddo credydau wedi'i gytuno. Gwnaeth Dominique Gymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 i fodloni gofynion ei rôl. Gallwch chi wyllo stori Dominique fan hyn. [Dominique Lima - Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol | Gofalwn Cymru](#),

- Mae [stori Ruby](#) yn tynnu sylw at lwybrau amgen i radd gwaith cymdeithasol.
- Mae'r [astudiaeth achos fideo hon](#) yn dangos sut caiff y rhaglen City & Guilds ei chyflwyno drwy'r coleg.

Modiwlau dysgu digidol

Rydyn ni'n cynnig amrywiaeth o adnoddau dysgu digidol ar ein gwefan i gefnogi rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol:

- [Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person gydag oedolion](#)
- [Dulliau sy'n seiliedig ar hawliau ac ymarfer sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc](#)
- [Pecyn gweithredu dysgu a datblygu ar gyfer gofal a chymorth dementia](#)
- [Ynglŷn ag ymarfer sy'n seiliedig ar gryfderau](#)
- [Niwroamrywiaeth](#)

Cydnabyddiaeth a llwybrau dilyniant ar gyfer Cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4

Cydnabyddiaeth annibynnol:

Nid cerrig camu tuag at radd gwaith cymdeithasol yn unig yw cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 a Thystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae'r ddau yn gymwysterau annibynnol sy'n bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn llawn, gan roi'r

wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ymarferwyr i ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel, sy'n canolbwyntio ar y person.

Dywedodd un myfyriwr, "Mae'r cymhwyster hwn yn gam hollbwysig i gydnabod y gwaith hanfodol y mae ymarferwyr gwasanaethau cymdeithasol yn ei wneud."

Llwybrau dilyniant:

Yn unol ag ymrwymiad i ddatblygu gyrfa hirdymor, ceir llwybr dilyniant clir a hygyrch i'r rhai sydd eisiau datblygu eu gyrfaoedd. Mae Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 a Thystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn bwyntiau terfyn cydnabyddedig a gwerthfawr i nifer o ymarferwyr, ac mae'r ddau yn cynnig llwybr uniongyrchol a chefnogol tuag at radd gwaith cymdeithasol.

Os oes rhywun yn cwblhau Tystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru) ac yn anelu at wneud gradd gwaith cymdeithasol, rhaid iddyn nhw fod wedi:

- cofrestru ar gyfer y radd anrhydedd berthnasol yng Nghymru
- cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
- cael cefnogaeth cyflogwr ar gyfer amser astudio.

Os oes rhywun yn cwblhau cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4:

- drwy drafodaethau rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Brifysgol Agored, bydd y Brifysgol Agored yn derbyn cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds fel un sy'n gyfwerth â Thystysgrif Addysg Uwch y Brifysgol Agored mewn Ymarfer Gofal Cymdeithasol (Cymru). Mae hyn yn caniatáu i ddeiliaid y cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol fynd i mewn yn uniongyrchol i ail flwyddyn gradd Gwaith

Cymdeithasol y Brifysgol Agored drwy broses trosglwyddo credyddau'r Brifysgol Agored.

- ar ôl adolygu ac ail-ddilysu'r radd Gwaith Cymdeithasol, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Choleg Penybont wedi cymeradwyo cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol City & Guilds Lefel 4 fel un sy'n gyfwerth â blwyddyn gyntaf (Lefel 4) gradd BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol.
- gall deiliaid cymhwyster ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol fynd i Lefel 5 (blwyddyn 2) o radd BA (Anrh) Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd drwy broses trosglwyddo credyddau. Cynlluniwyd y llwybr hwn i gydnabod y dysgu a'r profiad a fagwyd drwy'r cymhwyster.

Gofynion allweddol

- **Nawdd cyflogwr:** yn wahanol i fyfyrwyr sy'n cael mynediad uniongyrchol, rhaid i ddeiliaid cymhwyster ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol gael nawdd wrth eu cyflogwr. Rhaid i'r cyflogwr gytuno i gynnal y myfyriwr drwy gydol eu hastudiaethau.
- **Y broses ymgeisio:** rhaid i ddeiliaid cymhwyster ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol wneud cais i'w cyflogwr a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Bydd y brifysgol a'r cyflogwr yn cynnal cyfweiliadau i asesu os ydynt yn addas i symud ymlaen i ail flwyddyn y cwrs.
- **Gwiriad DBS manwl a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru:** os yn llwyddiannus ac y cynigir lle amodol, rhaid i ddeiliaid cymhwyster ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol:
 - gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol dan hyfforddiant gyda Gofal Cymdeithasol Cymru
 - gael gwiriad DBS manwl sy'n cwmpasu oedolion